# Ffeithlen Gerddi

**Bwriad y ffeithlen hon yw darparu'r wybodaeth gefndirol angenrheidiol i athrawon ddefnyddio'r cynlluniau gwersi a'r taflenni gwaith yn hyderus. Ymhlith nifer o wefannau eraill a allai fod yn ddefnyddiol mae Wicipedia, ARKive, BBC Nature, Naturenet, RSPB a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.**

## Corystlumod

Lladin *Pipistrellus pipistrellus* a *Pipistrellus pygmaeus*

Ceir dwy rywogaeth o gorystlumod ym Mhrydain: y corystlum cyffredin a'r corystlum soprano. Yn wreiddiol y gred oedd mai un rhywogaeth oedd y rhain. Fe'u rhannwyd ym 1999 ar ôl darganfod bod y ddwy rywogaeth yn ecoleoli ar wahanol amleddau. Mae corystlumod cyffredin yn galw ar 45kHz ond mae corystlumod soprano'n ecoleoli ar 55kHz. Ers darganfod hyn, sylweddolwyd hefyd fod y ddwy rywogaeth yn amrywio ychydig o ran maint ac arferion bwyta.

LBAP species

Corystlumod yw'r ystlumod lleiaf a mwyaf cyffredin ym Mhrydain, gan glwydo'n aml yn nhoeau adeiladau lle mae pobl yn byw. Mae corystlumod i'w cael ar draws amrywiaeth o gynefinoedd, gan gynnwys coetiroedd, gwlyptiroedd,

glaswelltiroedd, ffermydd, parciau a gerddi. Maent yn tueddu i chwilio am fwyd dros ardaloedd glaswelltog agored sydd wedi'u hamgylchynu gan goed neu lwyni. Mae modd eu gweld hefyd yn hela pryfed uwchben dŵr.

Mae corystlumod yn ymgasglu mewn cytrefi trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod yr haf maent yn ymgynnull mewn cytrefi mawr, gan glwydo mewn coed, adeiladau megis eglwysi ac agennau

mewn creigiau. Ymhlith eu hoff glwydfannau yn ystod yr haf mae mannau bach, cynnes y tu ôl i deils neu estyllod dŵr ar wal sy'n wynebu'r de. Gan eu bod mor fach, gall corystlumod wasgu trwy fylchau sy'n mesur 15mm o led. Mae'r ystlumod yn cysgu yn ystod y dydd, gan ymddangos 15-13 munud cyn machlud yr haul i hel pryfed. Maent yn bwydo ar bryfed bach adeiniog megis gwybed, gwyfynod a phryfed pric, ac maent yn bwyta hyd at draean o bwysau eu cyrff bob nos.

Mae ystlumod yn synhwyro ysglyfaeth trwy ecoleoli; maent yn allyrru gwichiadau uchel iawn (uwchsonig) sy'n neidio'n ôl oddi ar unrhyw wrthrych solet. Mae'r ystlumod yn gallu dehongli'r amser a gymerir i'r adlais ddychwelyd a 'gweld' yr ardal o'i gwmpas.

Mae ystlumod yn gaeafgysgu dros y gaeaf o tua chanol mis Hydref. Bydd y cytref yn dod o hyd i safle addas megis to eglwys, clochdy, ceubren neu agen mewn craig. Mae pob ystlum yn hongian neu'n gwasgu'n sownd ben i waered gan gydio â'i draed ac yna mae'n mynd yn swrth. Cyflwr pan fo gweithgaredd ffisiolegol mewn anifail wedi lleihau yw syrthni, a nodweddir fel arfer gan ostyngiad yn nhymheredd y corff a chyfradd y fetabolaeth.

Mae cyplu'n digwydd yn yr hydref, ond mae'r fenyw yn gohirio ffrwythloni tan y gwanwyn. Mae'r embryo sy'n datblygu yn ddibynnol ar y tywydd a chyflenwad bwyd. Mae corystlumod benywaidd yn creu cytrefi meithrin dros yr haf gyda'r gwrywod yn clwydo mewn cytrefi bach ar wahân. Mae'r cyfnod beichiogi'n para rhwng 44 a 50 niwrnod a chaiff y cenau unigol (fel arfer) ei eni ym mis Mehefin. Mae ystlumod newydd eu geni yn fach iawn, yn ddi-flew ac yn ddall am tua wythnos. Mae cynhesrwydd yn bwysig iawn, gan annog tyfiant cynt. Mae'r bychain wedi cael eu diddyfnu ac yn barod i hedfan yn 3 wythnos oed. Mae'r fenyw yn cyrraedd aeddfedrwydd rhywiol ymhen blwyddyn, a'r gwryw ymhen 2 flynedd.

Mae pob un o rywogaethau ystlumod Prydain wedi bod yn dirywio oherwydd lleihad mewn cynefinoedd addas a'r pryfed maent yn bwydo arnynt. Mae hen goed aeddfed a oedd fel arfer yn ffynhonnell pryfed a chlwydfannau wedi cael eu colli. Yn aml mae'r pryfed mae ystlumod yn dibynnu arnynt yn cael eu lladd gan blaleiddiaid neu mae eu niferoedd nhw hefyd yn dirywio o ganlyniad i golli eu cynefinoedd. Mae pob rhywogaeth o ystlumod yn cael ei gwarchod gan y gyfraith, sydd hefyd yn gwarchod eu clwydfannau.

## Corryn y groes

Lladin: *Araneus diadematus*

Corryn mawr cyffredin sy'n gweu gweoedd crwn ac sydd i'w weld ledled Prydain a Gogledd Ewrop yw corryn y groes. Fe'i ceir mewn amrywiaeth eang o gynefinoedd, gan gynnwys gerddi, dolydd, llennyrch a gwrychoedd.

Mae corryn y groes yn gweu gwe gron fawr a chymhleth sy'n gallu mesur hyd at 40cm o ddiamedr. Defnyddir y we hon i ddal ysglyfaeth ar ffurf pryfed. Mae'r corryn yn tueddu i lechu yng nghanol y we, gan aros i synhwyro dirgryniadau yn y sidan y gall eu teimlo trwy'i goesau, sy'n rhoi gwybod iddo fod pryfyn wedi cael ei ddal. Bydd y corryn wedyn yn lapio'r ysglyfaeth mewn sidan cyn ei fwyta. Caiff y we ei bwyta ar ddiwedd y dydd er mwyn cadw'r proteinau a'u hailddefnyddio. Caiff gwe newydd ei nyddu bob dydd.

Fel gyda phob corryn, mae gan gorryn y groes 4 pâr o goesau; mae'r pâr cyntaf yn hir ac yn cael eu defnyddio i synhwyro dirgryniadau ar y we. O flaen y coesau cerdded mae pâr o 'balpiau' sy'n cael eu defnyddio i storio sberm yn y gwryw, ac maent yn cael eu mewnosod yng nghorff y fenyw i drosglwyddo sberm. Mae tri phâr o nyddynnau, ym mhen yr abdomen, yn cynhyrchu sidan.

Mae'r lliw yn amrywio o lwydfelyn i frownddu. Yn aml ceir marciau ar yr abdomen sy'n debyg i ffurf croes. Mae'r fenyw yn fwy na'r gwryw, sydd yn aml yn cael ei fwyta. Wrth gyplu, mae'r gwryw yn cofleidio abdomen y fenyw ac yn trosglwyddo'i sberm trwy un o'i balpiau. Mae'r gwryw yn gadael ar ôl cyplu ac yn marw yn fuan wedyn. Mae'r fenyw yn treulio nifer o ddiwrnodau yn ei chilfach, yna mae'n dechrau nyddu coden wyau neu 'cocŵn' sy'n diogelu'r wyau. Mae hi'n aros yn agos, gan amddiffyn y cocŵn am sawl diwrnod cyn marw. Mae'r corynnod ifanc yn dod allan o'r cocŵn yn y gwanwyn ac yn ymgasglu mewn grwpiau niferus tan y tro cyntaf iddynt fwrw eu croen. Ar ôl gwneud hyn, maent yn gwasgaru trwy 'falwnio', ffurf ar wasgaru lle mae'r corynnod bach yn taflu edafedd sidan i'r awyr ac yn cael eu cludo gan y gwynt.

## Dryw

Lladin: *Troglodytes troglodytes*

Y rhywogaeth hon yw'r unig un o chwe rhywogaeth y teulu sy'n bresennol yn yr Hen Fyd (Ewrop, Asia ac Affrica). Ac yntau'n aderyn bach iawn, mae'r dryw yn nodedig am ei gân hir a chymhleth.

Fel arfer rhwng 9 a 10.5cm o hyd, mae'r dryw yn frown ar ei rannau uchaf ac yn fwy llwyd oddi tanynt gyda barrau brown tywyllach ar yr adenydd a'r gynffon. Mae pig frown tywyll a choesau brown golau gan yr aderyn. Er bod yr aderyn hwn yn bwydo ar bryfed yn bennaf, bydd hefyd yn cymryd hadau a chwilerod dros y gaeaf.

Mae ei gân yn swnllyd ac yn bendant. O ystyried maint y dryw, mae ei gân ddengwaith yn fwy swnllyd, o'i gymharu bwysau wrth bwysau, na chân ceiliog. Mae unigolion yn amrywio yn

ansawdd a lefel sŵn eu cân; gall y fenyw ddewis ei chymar ar sail pa môr swnllyd a chymhleth yw ei gân. Mae'r gân yn dechrau gydag ychydig nodau rhagarweiniol, yna mae'n troi'n dril, gan esgyn rhywfaint cyn gorffen â nodau clir llawn neu dril arall.

Gyda'r nos, fel arfer yn y gaeaf, mae'n clwydo'n aml mewn cilfachau tywyll (sy'n esbonio ei enw gwyddonol), tyllau clyd a hyd yn oed hen nythod. Mewn tywydd caled mae weithiau'n gwneud hyn mewn grwpiau sydd naill ai'n cynnwys y teulu neu lawer o unigolion sy'n ymgasglu er mwyn cynhesu. Mae gwryw y dryw yn adeiladu sawl nyth, weithiau 6 neu 7. Nid yw'r 'nythod ceiliog' hyn byth yn cael eu leinio nes bod y fenyw'n dewis p'un i'w ddefnyddio. Fel arfer caiff y nyth crwn arferol o laswellt, mwsogl, cennau neu ddail ei wthio i dwll mewn wal, boncyff, agen mewn craig neu gornel adeilad, ond gan amlaf mewn llwyni a gwrychoedd caiff ei adeiladu. Mae rhwng pump ac wyth ŵy gwyn neu ychydig yn frith yn cael eu deor ym mis Ebrill, a chaiff ail nytheidiau eu magu.

## Malwen

Defnyddir y term malwen ar gyfer bron pob aelod o ddosbarth molysgaidd y Gastropoda sydd â chregyn troellog pan fyddant mewn oed. Yn gyffredinol, mae malwod yn cynnwys malwod môr, malwod tir a malwod dŵr croyw, ond yn y testun hwn byddwn yn sôn am falwod tir. Yr enw am falwod heb gregyn neu sydd â chregyn bychan iawn yn unig yw gwlithod, ac enw cyffredin am y rhai sydd a chregyn fwy neu lai gonigol yw llygaid meheryn. Heblaw am y gwahaniaeth yn y gragen, nid oes unrhyw wahaniaeth mewn gwirionedd rhwng gwlithod a malwod, ac eithrio o bosib eu cynefin a'u hymddygiad.

Mae gastropoda yn ail dim ond i bryfed o ran nifer y rhywogaethau sy'n bodoli. Mae malwod yn anhygoel o amrywiol - o ran eu cynefin, eu ffurf, eu hymddygiad a'u hanatomi. Llysysyddion yw'r rhan fwyaf ohonynt, er bod rhai yn hollysyddion neu'n gigysyddion ysglyfaethus.

Mae'r falwen gyffredin neu falwen yr ardd (Lladin: *Helix aspersa*) yn gyffredin ar draws Prydain a gweddill Ewrop. Maent i'w gweld mewn amrywiaeth o gynefinoedd gan gynnwys yn aml gerddi, parciau, coedwigoedd a thwyni tywod. Mae croen llaith, llwyd gan y falwen gyffredin. Mae ganddi bedwar tentacl - defnyddir y ddau byrraf (blaen) i fwyta, a'r ddau hiraf yn goesynnau llygaid. Fel arfer mae'r gragen yn frown golau gyda bandiau tywyllach sy'n dilyn sbiral y gragen.

Llysysydd yw malwen yr ardd. Mae'n bwydo ar lystyfiant sy'n pydru, algâu, ffyngau, cennau a dail planhigion. Yn aml fe'u gwelir yn bwydo ar blanhigion yr ardd a chânt eu hystyried yn aml yn bla. Maent wedi cael eu gweld hefyd yn bwydo ar bapur a chardbord llaith - gallant dreulio hyn oherwydd bod ganddynt facteriwm symbiotig yn eu crombil. Mae'r malwod yn bwyta trwy

grafu tafod llawn dannedd corniog, o'r enw radwla, dros eu bwyd. Mae hyn yn eu galluogi i grafu algâu a chennau o wyneb creigiau a waliau. Mae perthynas agos rhwng malwen yr ardd a *Helix pomiata*, y falwen fwytadwy a ddefnyddir mewn coginio Ffrengig.

Oherwydd eu croen llaith, mae malwod cyffredin yn brysuraf mewn tywydd llaith a chyda'r nos. Yn ystod amodau arbennig o sych, gall y falwen gilio i'w chragen a selio'r fynedfa gyda rhwystr a elwir yn epiffram. Yn aml deuir ar draws malwod yn y cyflwr hwn o dan greigiau mewn gerddi neu ar wal mewn cornel gysgodol. Gall y falwen aros yn y cyflwr difywyd hwn am sawl mis.

Deurywiad yw pob malwen y tir. Mae hyn yn golygu bod ganddynt organau gwryw a benyw ar yr un pryd. Nid ydynt yn hunanffrwythloni, ond byddant yn cyplu gyda malwen arall i gydffrwythloni. Hyd at ryw fis ar ôl cyplu, bydd y falwen yn dodwy tua cant o wyau bach o dan bridd llaith. Os bydd yr amodau'n para'n addas, bydd yr wyau'n deor ar ôl oddeutu 14 diwrnod. Mae gan falwod newydd ddeor gragen fregus ac mae'n cymryd dwy flynedd iddynt aeddfedu'n llwyr.

## Ceiliog y rhedyn (Sioncyn y gwair)

Mae ceiliogod y rhedyn yn bryfed o'r is-urdd Caelifera, yn urdd yr Orthoptera (ceiliogod y rhedyn, criciaid a locustiaid). Mae gan geiliogod y rhedyn deimlyddion sydd bron bob amser yn fyrrach na'u cyrff. Fel arfer, mae'r rhywogaethau sy'n creu synau hawdd eu clywed yn gwneud hyn trwy rwbio'u cluniau yn erbyn yr adenydd blaen neu'r abdomen (yr enw am hyn yw grillian), neu drwy glecian eu hadenydd wrth hedfan. Mae'r fenyw'n tueddu i fod yn fwy na'r gwryw.

Fel pob pryfyn, mae gan geiliogod y rhedyn gyrff teir-ran (pen, thoracs ac abdomen), chwe choes cymalog, dau bâr o adenydd a dau deimlydd. Mae sgerbwd allanol caled yn gorchuddio'r corff. Maent yn anadlu trwy gyfres o dyllau o'r enw sbinaclau sydd i'w gweld ar ddwy ochr eu cyrff. Fel arfer, mae'r coesau ôl yn hir ac yn gryf, yn addas ar gyfer neidio, tra bod y coesau blaen byr yn cael eu defnyddio i ddal bwyd a cherdded. Gall ceiliogod y rhedyn neidio 20 gwaith hyd eu cyrff eu hunain. Yn nhermau pobl, byddai hyn bron yn cyfateb i 40 llath!!

Llysysyddion yw ceiliogod y rhedyn sy'n bwyta gweiriau, dail a chnydau grawnfwyd. Ystyrir rhai rhywogaethau'n bla. Maent yn cael eu bwyta gan adar, chwilod, ymlusgiaid, llygod a chorynnod. Pan fo ceiliog y rhedyn yn cael ei godi, mae'n 'poeri' hylif brown a elwir weithiau'n 'sudd baco'. Mae rhai gwyddonwyr yn credu y gallai hyn amddiffyn ceiliogod y rhedyn rhag ymosodiadau gan ysglyfaethwyr. Mae ceiliogod y rhedyn hefyd yn osgoi ysglyfaethwyr trwy guddio ymhlith gwair neu ddail.

Amcangyfrifwyd bod rhyw 11,000 o rywogaethau Caelifera sydd wedi cael eu disgrifio, a chredir bod llawer mwy yn bodoli nad ydynt wedi cael eu disgrifio eto, yn enwedig mewn coedwigoedd gwlyb trofannol.

Wrth atgenhedlu, mae ceiliogod y rhedyn gwrywaidd yn mewnosod sberm i wyddodydd y fenyw trwy sbermatoffor (y pecyn sy'n cynnwys y sberm). Yna bydd y fenyw'n dodwy coden wyau wedi'i chladdu rhwng un a dwy fodfedd o  dan ddaear, er y cânt eu dodwy weithiau mewn gwreiddiau planhigion neu dom.  Mae'r goden wyau'n cynnwys sawl dwsin o wyau wedi'u gwasgu'n dynn i'w gilydd sy'n debyg i rawn reis. Mae'r wyau'n aros yno dros y gaeaf ac yn deor yn y gwanwyn pan fo'r tywydd wedi cynhesu'n sylweddol. Ym Mhrydain, mae ceiliog y rhedyn yn treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd ar ffurf ŵy, yn deor ac yn byw fel oedolyn am hyd at 3 mis. Mae ceiliogod y rhedyn yn datblygu trwy gyfnodau, gan fwrw eu croen yn gynyddol wrth i'w hadenydd a'u cyrff dyfu'n fwy.

## Madfallod dŵr

Ceir tair rhywogaeth o fadfall ddŵr ym Mhrydain: Y fadfall ddŵr gyffredin (Lissotriton vulgaris), y fadfall ddŵr balfog (Lissotriton helveticus) a'r fadfall gribog fwyaf (Triturus cristatus). Madfallod dŵr cyffredin yw'r rhywogaeth fwyaf cyffredin o fadfallod dŵr yn y DU, ac fe'u hystyrir ymhlith y rhywogaethau mwyaf cyffredin o ymlusgiaid yn Ewrop. Ceir madfallod dŵr palfog ledled Gorllewin Ewrop.

Nid ydynt yn arbennig o brin ym Mhrydain ond nid ydynt i'w cael yn Iwerddon. Mae nifer y madfallod cribog mwyaf wedi dirywio'n aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf ac felly rhoddir lefel uchel o ddiogelu iddynt o dan gyfraith Ewrop.

Mae madfallod dŵr cyffredin yn tyfu i ryw 10cm o hyd, gan gynnwys y gynffon, tra bod madfallod cribog mwyaf yn llawer mwy, gan fesur hyd at 17cm o hyd. Mae madfallod cribog mwyaf i'w gweld bron yn ddu. Mae ganddynt smotiau bach gwyn ar yr ochrau isaf ac mae eu rhannau isaf yn felyn neu'n oren gyda blotiau mawr du. Mae'r gwryw yn meddu ar grib fawr ddanheddog sy'n ymestyn ar hyd ei gefn, gan ostwng ym mhen yr abdomen cyn parhau ar hyd y gynffon. Mae'r croen yn llawer mwy garw nag yn achos y ddwy rywogaeth arall o fadfallod dŵr, sy'n esbonio pam mae'r creaduriaid weithiau'n cael eu galw'n fadfallod dafadennog. Mae'n fwy anodd gwahaniaethu rhwng y fadfall ddŵr gyffredin a'r fadfall ddŵr balfog sy'n llai o ran maint. Dyma'r rhywogaethau y byddwch yn fwy tebygol o ddod ar eu traws, ac maent yn debyg i'r syniad 'traddodiadol' o olwg madfall ddŵr: croen llyfn gwyrdd olewydd neu frown golau gyda brychni tywyllach. Mae gan y ddwy rywogaeth hefyd folau oren, ond mae gan y fadfall ddŵr

gyffredin wddf golau a smotiau crwn tywyll ar hyd ei bola tra bod gan y fadfall ddŵr balfog wddf heb smotiau. Mae gwryw madfallod dŵr yn tyfu crib donnog ddi-dor ar hyd y cefn a'r gynffon yn ogystal ag ymylon croen o gwmpas bysedd y traed ôl. Mae'r gwryw hefyd yn datblygu smotiau mawr ar rannau uchaf ei gorff yn ystod y tymor bridio. Mae ymddygiad bridio a chylch bywyd madfallod dŵr palfog bron yr un peth yn union ag ymddygiad a chylch bywyd y fadfall ddŵr gyffredin, er bod crib cefn y gwryw yn llawer llai amlwg nag yn achos madfallod dŵr ac mae ymyl syth iddi. Gellir gweld "edefyn" amlwg ym mhen cynffon gwryw sy'n bridio yn ogystal â thraed ôl gweog.

Mae'r tymor bridio'n para o fis Mawrth i fis Mehefin ac yn cael ei gynnal dan ddŵr lle mae'r fenyw yn dodwy wyau naill ai'n unigol neu mewn parau, gan eu clymu i ddail planhigion dŵr ac yna plygu'r dail dros yr wyau â'i thraed ôl. Am weddill yr haf, mae madfallod dŵr yn byw y tu allan i'r dŵr ac yn llochesu mewn ardaloedd cysgodol megis pentyrrau boncyffion mewn gerddi, gan fentro allan liw nos i fwydo ar greaduriaid bach di-asgwrn-cefn. Mae patrymau bridio a chylch bywyd y fadfall gribog fwyaf yn debyg iawn i'r ddwy rywogaeth arall o fadfallod dŵr er mai creadur nosol yw'r fadfall gribog fwyaf yn bennaf a gall fod yn anodd ei weld mewn pyllau yn ystod y dydd.

Yn y dŵr, mae madfallod dŵr yn bwydo ar greaduriaid dŵr di-asgwrn-cefn, penbyliaid, larfâu pryfed a malwod dŵr. Ar y tir, maent yn hela pryfed a mwydod a chreaduriaid di-asgwrn-cefn eraill. Gall madfallod cribog mwyaf fwyta madfallod dŵr eraill, yn enwedig pan fyddant yn y dŵr.

Y tu allan i'r tymor bridio, gellir dod ar draws fadfallod dŵr mewn amrywiaeth o gynefinoedd gan gynnwys gerddi, rhostir, corsydd, ffermydd a pharcdir. Maent yn dychwelyd i ardaloedd gyda dŵr araf neu lonydd a digon o lystyfiant lle gallant fridio.

Ar ôl y garwriaeth, mae'r gwryw yn gosod sbermatoffor (pecyn o sberm) o flaen y fenyw y mae hi'n ei godi â'i chloaca (agoriad atgenhedlu ac aren). Bydd y fenyw yn dodwy ychydig o wyau y dydd, gyda phob un ar blanhigion dŵr neu wedi'i lapio ynddynt. Maent yn tueddu i ddodwy hyd at 200-300 o wyau. Mae'r larfâu'n deor ar ôl 2-3 wythnos, ac yn trawsnewid yn llwyr yn greaduriaid ifanc sy'n anadlu aer ar ôl rhyw 10 wythnos. Maent yn dod yn oedolion rhywiol aeddfed ar ôl 2 neu 3 blynedd.

Ceir mwy o wybodaeth am amffibiaid a chamau i'w diogelu ar ein PDF Amffibiaid ac Ymlusgiaid yn Ne Cymru y gellir ei lawrlwytho.